Cylch Meithrin Twtil - Rhif Elusen Gofrestredig: 1192795

Ni ydi Cylch Meithrin Twtil sy'n gwasanaethu ardal Twtil a thu hwnt. Rydan ni yn deulu bach hapus a chroesawgar sy'n barod i groesawu plant newydd ym mis Medi.

Rydan ni wedi cofrestru gydag Arolygaeth Gofal Cymru / Care Inspectorate Wales, Mudiad Meithrin ac yn Elusen Gofrestredig. Rydym yn ddarparwyr Addysg Feithrin a Gofal 30 Awr am ddim ar gyfer plant 3 - 4 oed.

Ein horiau agor yw 11 - 3 o ddydd Llun tan ddydd Gwener yn ystod y tymor ysgol (ar gyfer plant 2 - 4 oed). Ar y cyd gyda Ysgol Santes Helen rydym yn cynnig gofal gydol dydd sef Clwb brecwast, dosbarth Meithrin a Chlwb ar ôl ysgol yn yr ysgol a Chlwb Cinio a sesiwn Cylch Meithrin yn y Cylch yn y prynhawn.

Mae croeso cynnes i bob plentyn yn ein Cylch gan Anti Sarah ac Anti Erin ac mae nifer o weithgareddau amrywiol yn helpu'r plant i ddatblygu sgiliau wrth chwarae. Mae yna ardal chwarae tu allan, sy'n cynnwys Cegin Fwd ac amrywiol adnoddau i hybu datblygiad llawn bob plentyn.

Am fwy o fanylion ar gyfer mis Medi cysylltwch â ni ar:

Ebost: cylchmeithrintwtil@gmail.com

Ffôn: 07587537609

Hysbyseb

Mae Cylch Meithrin Twtil yn edrych am bobl i weithio'n achlysurol pan fydd angen. Cysylltwch trwy Ebost: cylchmeithrintwtil@gmail.com.